Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# O Ysbytai i Gartrefi

## Sut mae pobl ag anabledd dysgu yn gallu byw mewn cartrefi, nid ysbytai



Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **O Ysbytai I Gartrefi** sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Joe Powell, Dawn Cavanagh, David Abbott a Janis Griffiths.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cartrefi nid Ysbytai**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** llyw.cymru/anableddau-dysgu

**Ebost:** LearningDisabilityPolicy@gov.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys

**Am yr adroddiad yma** .......... **4**

**Hawliau dynol** .......... **7**

**Pam mae pobl yn cael eu cadw mewn ysbytai** .......... **15**

**Casglu gwybodaeth** .......... **20**

**Beth sydd angen newid** .......... **22**

1. Stopio cadw pobl yn yr ysbyty os nad oes angen iddyn nhw fod yno 23
2. Gwella gwasanaethau i stopio aros yn yr ysbyty .......... 26
3. Edrych ar sut mae pethau'n cael eu gwneud i wneud gofal yn well .. 29
4. Adrodd a rhannu pryderon yn gynnar .......... 31
5. Gwneud y gyfraith yn gryfach i amddiffyn pobl a theuluoedd .......... 32
6. Cael Comisiynydd Anabledd Dysgu .......... 34
7. Edrych ar waith gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol .. 35
8. Gwneud ffyrdd gwell i bobl gwyno .......... 36

# Am yr adroddiad yma



Ni ydy **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cartrefi nid Ysbytai Bywydau wedi eu Dwyn**.



Mae'r adroddiad yma am bobl ag anableddau dysgu ac/neu bobl awtistig, sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty ar gam.



**Pan fyddwn ni'n dweud pobl yn yr adroddiad yma, rydyn ni'n siarad am:**

- **Pobl ag anabledd dysgu**
- **Ac neu pobl awtistig**



Mae llawer o bobl yn cael eu cadw mewn ysbytai ymhell o'u teuluoedd a'u cymunedau.



Maen nhw'n aros yn yr ysbyty am amser hir ac yn byw gyda rheolau llym ac annheg.



Mae'r rheolau yma yn gallu torri hawliau dynol.




Mae hon yn broblem ar draws y DU, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei datrys yng Nghymru.



Fe wnaethon ni edrych ar beth sydd yn gallu helpu pobl i fyw mewn cartrefi, nid ysbytai.



Mae'r adroddiad yma'n edrych ar pam mae pobl yn cael eu cadw mewn ysbytai pan nad oes angen iddyn nhw fod yno.



Mae'n esbonio problemau gyda gofal, tai a chymorth.




Mae'n rhoi 8 prif syniad ar gyfer newidiadau i helpu pobl i fyw'n dda yn eu cymunedau.

# Hawliau dynol



Dydy'r rhan fwyaf o bobl ddim angen ysbyty, hyd yn oed os oes ganddyn nhw anghenion iechyd meddwl.



Mae ysbytai yn gallu bod yn swnllyd, yn orlawn ac mae ganddyn nhw reolau llym. Maen nhw'n gallu bod yn anodd i bobl sy'n sensitif i sain, golau a chyffwrdd.



Mae bod yn yr ysbyty yn  gallu gwneud I bobl gynhyrfu. Weithiau mae'r cynhyrfu yma yn cael ei ddefnyddio yn anghywir fel rheswm i'w cadw yno yn hirach.




Mae rhai pobl wedi cael eu cadw yn yr ysbyty am fwy na 30 mlynedd.




Mae cadw pobl yn yr ysbyty pan nad oes angen iddyn nhw fod yno yn broblem hawliau dynol.

**Mae gennym ni gyfreithiau sy'n amddiffyn ein hawliau dynol. Maen nhw'n dweud bod gan bob un ohonom yr hawl i:**



- Peidio cael eich cadw yn yr ysbyty heb reswm da.



- Peidio cael eich trin yn wael nac yn annheg.



- Cartref a bywyd teuluol.



- Bod yn rhydd ac yn ddiogel ac nid cael eich cloi I fyny am ddim rheswm da.



- Byw yn y gymuned gyda chefnogaeth.



- Dim ond fel opsiwn olaf y dylid cadw plant, am yr amser byrraf.




- Fe ddylai plant anabl fyw bywydau llawn yn y gymuned.

# Pobl ymhell o gartre



Mae rhai pobl yn cael eu hanfon i ysbytai ymhell oddi wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae llawer o bobl yn cael eu hanfon i ysbytai yn Lloegr.



Mae hyn yn gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n unig ac yn anniogel.



Mae bod ymhell o gartref yn ei gwneud hi'n anoddach i deuluoedd a staff helpu.



Mae gan rai ysbytai broblemau amlwg a dydyn nhw ddim yn ddiogel.

## Effaith ar deuluoedd



Dydy llawer o deuluoedd ddim  yn gwybod eu hawliau ac yn aml yn teimlo'n ofnus ac yn unig.



Weithiau mae teuluoedd yn cael eu stopio rhag siarad â'r cyfryngau neu wleidyddion. Mae hyn yn gallu torri eu hawl i siarad allan.



Mae rhai teuluoedd yn aros yn dawel oherwydd eu bod yn ofni beth sydd yn gallu digwydd os ydyn nhw'n siarad.



Does gan rai pobl mewn ysbytai ddim teulu i siarad ar eu rhan. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach fyth i'w lleisiau gael eu clywed.

# Math anghywir o ysbyty




Mae byrddau iechyd wedi cau rhai ysbytai anabledd dysgu arbenigol i arbed arian.



Mae llawer o bobl yn cael eu hanfon i ysbytai iechyd meddwl yn lle hynny.

Yn yr ysbytai yma:



- Mae ymddygiad yn aml yn cael ei ystyried fel problem iechyd meddwl.



- Mae trallod weithiau yn cael ei drin fel trosedd.



- Dydy staff ddim yn deall nac yn cefnogi anghenion pobl.



Mae hyn yn cadw pobl yn y lleoedd anghywir. Yn lle eu cefnogi yn eu cymuned.

# Bywyd yn y gymuned



Mae byw yn y gymuned yn llawer gwell i bobl nag aros yn yr ysbyty.



Mae pobl yn gallu bod yn nhw eu hunain, gwneud dewisiadau, a chymryd rhan mewn bywyd bob dydd.



Maen nhw'n gallu cael ffrindiau a chysylltu â theulu.



Mae cadw pobl yn yr ysbyty pan na ddylen nhw fod yno yn eu niweidio nhw a'u teuluoedd.


# Pam mae pobl yn cael eu cadw mewn ysbytai




Mae bwlch rhwng beth mae cyfreithiau Cymru yn ei ddweud a beth sy’n digwydd.



Mae toriadau i wasanaethau wedi gwneud pethau’n waeth.



Mae’n anoddach i deuluoedd gael help.



Mae mwy o bobl yn cael eu hanfon i’r ysbyty oherwydd nad oes cefnogaeth.



Mae yna lawer o adroddiadau a chynlluniau, ond does dim llawer o newid go iawn wedi bod.

# Problemau gyda gofal cymdeithasol



Mae gofal cymdeithasol gwael yn rheswm mawr pam mae pobl yn cael eu hanfon i'r ysbyty.



Mae pobl yn aml yn cael eu rhoi mewn ysbytai pan nad ydy gofal arall wedi gweithio'n dda. Neu pan fydd teuluoedd yn cwyno am ofal gwael.



Mae rhai pobl yn cael eu rhoi yn yr ysbyty pan fydd teuluoedd yn gofyn am seibiant neu gefnogaeth gyda gofalu.



Fe ddylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd a gwneud gofal yn haws i'w gael. Ond mae teuluoedd yn dweud nad ydy hyn yn digwydd.

## Polisïau a chyfreithiau




Dydy llawer o bolisïau i gadw pobl yn ddiogel ddim yn gweithio.

Mae teuluoedd yn dweud bod hyn yn digwydd oherwydd:




- Does dim rhaid i bolisïau gael eu dilyn gan y gyfraith, felly mae pobl yn eu hanwybyddu.



- Mae polisïau yn gallu meddwl pethau gwahanol i wahanol bobl.



- Does dim byd yn digwydd pan fydd pobl yn anwybyddu polisïau.

Mae'r **Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026** yn dweud y bydd:



- Gwella cefnogaeth yn y gymuned fel bod llai o bobl yn mynd i'r ysbyty



- Darparu gofal arbenigol diogel yn agos at gartref.



- Helpu pobl i ddychwelyd adref cyn gynted ag maen nhw'n gallu.




Mae teuluoedd yn dweud nad ydy'r cynllun yn glir a, sut, pryd, neu bwy fydd yn gwneud y newidiadau yma.



Mae **Anabledd Dysgu Cymru** eisiau cynllun manwl gyda nodau clir i wella gwasanaethau.


# Tai a chymorth cymunedol



Does dim digon o dai na chefnogaeth i bobl yn y gymuned.



Mae hyn yn mynd yn groes i **Strategaeth Cymru Gyfan**, sy'n dweud:



- Dydy anabledd dysgu ddim yn gyflwr meddygol.



- Fe ddylai pobl ag anableddau dysgu fyw bywydau normal yn y gymuned.

# Casglu gwybodaeth



Mae angen gwell gwybodaeth ar Gymru am bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig.

Fe fydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru:





- Cyfrif faint o bobl sydd yn y lleoedd anghywir.



- Cynllunio ar gyfer symud pobl i gartrefi a chymorth cymunedol.



- Dangos pa wasanaethau sydd ar goll a beth sydd angen newid.



Mae bylchau mawr o hyd mewn gwybodaeth am bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru.



Mae gan yr Alban **Arsyllfa Anableddau Dysgu**. Mae hwn yn grŵp sy'n casglu'r wybodaeth yma.




Dydy Llywodraeth Cymru ddim wedi sefydlu Arsyllfa. Neu edrych I weld pa mor ddefnyddiol y mae'n gallu bod.

# Beth sydd angen newid



Fe ddylai pobl fyw yn y gymuned a bod yn ddiogel ac yn hapus.



Mae angen i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau wneud newidiadau nawr i wneud i hyn ddigwydd.



**Mae gennym ni 8 prif syniad ar gyfer newid.**

## 1. Stopio cadw pobl yn yr ysbyty os nad oes angen iddyn nhw fod yno



- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddweud y dylai cefnogaeth i bobl fod yn y gymuned.



- Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn glir na ddylai unrhyw un aros mewn ysbyty iechyd meddwl os nad oes ganddyn nhw gyflwr iechyd meddwl.



- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddweud na ddylai bod yn ypset neu actio allan fod yn rheswm dros anfon rhywun i'r ysbyty.



- Rhaid i Lywodraeth Cymru stopio plant ag anableddau dysgu a phlant awtistig rhag cael eu hanfon i ysbytai.




- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru newid y gyfraith fel mai dim ond pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl sy'n gallu cael eu cadw yn yr ysbyty.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru gynllunio'n gynnar i leihau'r risg o bobl ifanc yn cael eu rhoi yn yr ysbyty. Mae problemau yn aml yn digwydd pan fydd plant yn symud i wasanaethau oedolion.




- Fe ddylai ysbytai anabledd dysgu gau. Fe ddylai pobl gael cefnogaeth yn y gymuned, gyda lleoedd tymor byr diogel i aros yn lle ysbytai.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru leihau rheolau llym ysbytai a helpu pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel. Maen nhw'n gallu dysgu o waith sydd yn cael ei wneud yn Lloegr.



- Rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau ddarparu gwasanaethau lleol da.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ymddiheuro am gadw pobl ymhell o gartref am rhy hir.

## 2. Gwella gwasanaethau i stopio aros yn yr ysbyty



- Rhaid i Lywodraeth Cymru wella gwasanaethau cymunedol ac ysbytai. Rhaid i wasanaethau ganolbwyntio ar gymorth cynnar a rhoi gofal yn y gymuned.



- Fe ddylid hyfforddi a chefnogi staff. Fe ddylai gwasanaethau ei gwneud hi'n haws i bobl fyw'n ddiogel a chymryd rhan yn eu cymuned.




- Rhaid edrych ar gynllunio a chyllid yn aml. Rhaid dilyn rheolau clir am ansawdd a diogelwch.




- Fe ddylai'r gyfraith ddweud bod rhaid i bobl sy'n cynllunio neu'n darparu gwasanaethau ateb anghenion pobl. Rhaid i bobl ag anghenion cymorth uchel gael y gwasanaethau cywir.



- Rhaid i gwmnïau preifat beidio â rhoi gwneud arian uwchben gofal a staffio da.




- Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod anghenion tai pobl mewn ysbytai. Fe ddylai cyllid tai cymdeithasol helpu pobl i symud yn ôl i'w cymuned leol.



- Rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau weithio gyda'i gilydd i wella tai a chefnogaeth. Fe ddylid uno arian ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu helpu i reoli'r arian yma a gwneud newidiadau.



- Rhaid i wasanaethau cymunedol a seibiannau byr gael mwy o arian nawr. Maen nhw wedi cael toriadau arian ers blynyddoedd.




- Fe ddylai fod un ffordd glir o ofalu am bobl yng Nghymru. Fe ddylai gynnwys cymorth cynnar, a chefnogaeth i bobl sy'n cael amser anodd iawn.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth glir bob blwyddyn am faint sy'n cael ei wario ar roi pobl mewn gofal ysbyty.

# 3. Edrych ar sut mae pethau'n cael eu gwneud i wneud gofal yn well



- Fe ddylai grŵp edrych ar achos pob person yn yr ysbyty. Fe ddylai hyn gael ei arwain gan rywun o'r tu allan i'r llywodraeth.



- Fe ddylai'r grŵp gynnwys pobl sydd wedi byw mewn ysbyty a theuluoedd. Fe ddylai ddod o hyd I beth sy'n stopio pobl rhag gadael yr ysbyty a'u helpu i ddychwelyd i'w cymuned leol.



- Fe ddylai'r grŵp edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi pobl sydd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty ar gam a'u teuluoedd.




- Fe ddylai'r grŵp edrych ar sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i rhannu.



- Fe ddylid edrych hefyd ar y ffordd  mae arolygiadau yn cael eu gwneud yng Nghymru. Fe ddylai hyn edrych I weld ydy arolygiadau yn canfod ac yn trwsio gofal gwael.



- Rhaid edrych ar y ffordd mae gofal yn cael ei gynllunio a’i reoli hefyd.

# 4. Adrodd a rhannu pryderon yn gynnar



- Fe ddylai'r grŵp o Syniad 3 wneud ffordd hawdd o adrodd am bryderon am ofal pobl yn yr ysbyty.



- Fe ddylai sefydliad ar wahân arwain y gwaith yma. Fe ddylai roi adroddiadau i Weinidogion a sefydliadau eraill. Fe ddylai pawb allu darllen yr adroddiadau.




- Bob tro mae rhywun yn cael eu rhoi yn yr ysbyty, fe ddylid rhoi gwybod amdano i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Fe ddylid rhannu'r adroddiadau gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

## 5. Gwneud y gyfraith yn gryfach i amddiffyn pobl a theuluoedd




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud deddfau cryfach i stopio pobl rhag cael eu cadw mewn ysbytai. Rhaid stopio sefydliadau sydd ddim yn amddiffyn hawliau pobl.




- Rhaid i'r Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol ddod yn gyfraith, felly mae pawb yn ei ddilyn. Mae hwn yn ganllaw i leihau pethau fel dal pobl i lawr, a'u cloi mewn ystafell.



- Rhaid edrych ar y ffordd mae pobl yn cael eu rhoi mewn ysbyty. Mae grŵp ar wahân yn gallu arwain y gwaith yma.



- Fe ddylai teuluoedd gael cymorth cyfreithiol am ddim pan nad ydy rheolau'n cael eu dilyn.



- Ni ddylai teuluoedd fyth gael eu cosbi am gwyno. Rhaid i fygythiadau cyfreithiol a chamddefnyddio'r gyfraith stopio. Fe ddylai adolygiad ddigwydd os ydy hawliau teulu yn cael eu niweidio ar ôl cwyno.



- Mae angen mwy o gefnogaeth ar deuluoedd i amddiffyn hawliau dynol eu hanwyliaid. Mae camau cyfreithiol yn gallu cymryd amser hir, ac mae.n anodd dod o hud I gyfreithwyr ac maen nhw'n costio llawer.



- Dim ond gyda gwiriadau cryf y dylid defnyddio camau cyfreithiol sy'n stopio pobl rhag siarad allan. Fe ddylai cynghorau fod angen cymeradwyaeth gan Weinidog cyn gwneud cais amdanyn nhw.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru adolygu achosion cyfreithiol hir i weld os ydy hawliau dynol teuluoedd wedi'u niweidio.



- Fe ddylai fod gwasanaeth cymorth arbennig sy'n rhoi cyngor cyfreithiol i deuluoedd. Fe ddylai grŵp ar wahân edrych I weld ei fod yn gweithio'n dda.

# 6. Cael Comisiynydd Anabledd Dysgu



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru gael Comisiynydd Anabledd Dysgu. Fe fyddai'r person yma yn edrych ar symudiadau o ysbytai i'r gymuned am 5 mlynedd. Fe fydden nhw'n arwain y grŵp o Syniad 3 ac yn gosod amseroedd targed ar gyfer gweithredu.



- Fe ddylai'r comisiynydd wrando ar deuluoedd a phobl sydd â phryderon a gwneud yn siŵr bod gwersi yn cael eu dysgu.




- Rhaid i'r comisiynydd wneud yn siŵr bod y llywodraeth yn cynnwys anghenion anabledd dysgu mewn cynlluniau a pholisïau.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru roi mwy o rôl i'r Grŵp Cynghori'r Gweiniodog ar Anabledd Dysgu wrth edrych ar gynnydd a newidiadau.

# 7. Edrych ar waith gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol




- Fe ddylid edrych ar bob gweithiwr cymdeithasol a thîm gofal. Fe ddylid edrych ar y ffordd mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu gwasanaethau.



- Rhaid i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol dreulio amser yn gweithio gyda phobl. Fe ddylid cofnodi nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n cael yr hyfforddiant yma.



- Fe ddylai gweithwyr cymdeithasol gael mwy o hyfforddiant ar gefnogi pobl a'u teuluoedd.




- Rhaid edrych ar, a gwella hyfforddiant i weithwyr sy'n helpu i benderfynu a ddylai rhywun fynd i ysbyty iechyd meddwl. Fe ddylid eu stopio os nad ydyn nhw'n dilyn rheolau cyfreithiol. Fe ddylen nhw esbonio hawliau i deuluoedd ac ateb eu cwestiynau.

# 8. Gwneud ffyrdd gwell i bobl gwyno



- Rhaid i dimau diogelu weithredu'n gyflym. Fe ddylen nhw ddeall bod pobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig mewn mwy o berygl o niwed.



- Fe ddylai rheolau diogelu fod yn gryfach i bobl mewn lleoedd lle nad oes ganddyn nhw fawr o reolaeth. Rhaid i deuluoedd deimlo'n ddiogel i gwyno.



- Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y system gwynion a defnyddio syniadau da o Loegr. Fe ddylai'r system fod yn deg, yn syml, ac wedi ei seilio ar brofiadau pobl.




- Ni ddylai teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel Bywydau wedi eu Dwyn gael eu trin yn annheg gan fyrddau iechyd neu gynghorau.